Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

Cyfrol xlviii. RHAGFYR, 1948. Rhif 12.

Cyflwyno fy Olynydd.

Wrth ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i garedigion Yr Ymofynnydd, cymraf gyfle hefyd, wrth dywys un o'm cyfeillion annwyl, i eistedd yn fy lle yng nghadair y golygydd, i ddiolch i'r darllenwyr a'r dosbarthwyr a'r cyfrannwyr am eu calondid yn ystod yr un flynedd ar ddeg y cefais yr anrhydedd o ofalu am ein misolyn annwyl. Nid anghofiaf barodrwydd a boneddigeiddrwydd y brodyr Lewis o Wasg Gomer. Dim ond hwy a minnau a ŵyr am anawsterau'r blynyddoedd diwethaf, pan ddaeth "bagad gofalon bugail" i bwyso'n drymach nag erioed ar amser y golygydd, a'r llesgedd sy'n dod gyda'r blynyddoedd yn ei flino. Diolchaf iddynt am eu cymwynasau i'r Ymofynnydd ac am amynedd eu cysodwyr ffyddlon.

O fwrw golwg yn ôl dros y cyfrolau daw geiriau'r hen weddïwr o Gwmann i'm clyw (er na chlywais ef erioed), "Diolch fod hi arnom ni fel ag y mae." Yn wir hyfrydwch o'r mwyaf yn awr yw gweld ambell rifyn a ysgrifennwyd yn y trên, a llawer un arall y bu'r golau'n llosgi hyd oriau man y bore wrth ei deipio. Cyfaddefaf imi greu anawsterau wrth ddilyn yn rhy bendant bolisi neilltuol, sef dibynu ar gyfraniadau *oddifewn* i gylch yr enwad. Efallai y bydd rhywrai o'r farn fod y weithred yn dda.

Cyflwynaf yn awr fy nghyfaill annwyl, y Parchedig D. Jacob Dafis, B.A. i chwi fel y golygydd newydd. Rhoddwch iddo bob hwylustod. Y mae ganddo gymhwysterau arbennig at y gwaith, cystrawen ystwyth ac eglur i fynegi ei feddwl, gwroldeb i gyhoeddi ei farn. Eisoes y mae wedi ennill enw fel llenor, a disgwylir llawer mwy oddi wrtho yn y dyfodol.

Os rywbryd y teimla'r gwaith yn feichus, a'i demtio i regu'r baich, cofied fel y gwneuthum innau fwy nag unwaith am y ferch fach a oedd yn cario'i brawd ar ei chefn adre o'r ysgol. "Y mae gennych lwyth trwm, fy merch fach," meddai'r Dyn Dieithr. "Na," meddai'r ferch fach, "nid llwyth yw e, syr. Fy mrawd yw e." Ein misolyn annwyl ninnau yw'r Ymofynnydd. Plentyn yr enwad ydyw, ac os ffaela hwn bydd gobeithion yr enwad yn wyw.

Anrhydeddu Gweinidog.

Medi 27—Capel y Graig, Trebanos, yn orlawn—y gweinidog yn terfynu cyfnod ei weinidogaeth yng Ngellionnen a'r Graig—y gynulleidfa'n mynegi ei gwerthfawrogiad o'i wasanaeth. Dyna'r manylion, a hoffwn groniclo pob gair a lefarwyd. Pe gellid gwneud hynny, diau y byddai'r Golygydd yn llawenhau yn ei galon ond yn pryderu am ofod y misolyn.

Llywyddwyd gan y Parchedig Lewis Morgan, ac arweiniwyd yn y defosiynau gan y Parchedig Dl. John, Gosen. Rhwystrwyd rhag eu presenoli eu hunain y Parchedigion J. Lundy Richards, Ficer Pontardawe ; J. E. Rees, Curad Trebanos ; Wm. Davies, Pontardawe ; Simon Jones, Gwyr ; a D. James Jones, Treforus.

Trawyd cyweirnod y cyfarfod yn araith odidog y llywydd. Ymhlith pethau eraill dywedodd Mr. Morgan, "Torri cysylltiad sydd yma heno, ond nid am fod y cysylltiad yn un drwg na chwaith am fod y ddwy ochr am ei dorri. Nid yw Mr. Jones yn awyddus nac yn falch fod hyn yn digwydd, na'r eglwys chwaith. Torri cysylltiad a'i eglwys fel gweinidog a bugail y mae Mr. Jones, ac nid fel pregethwr. Os byw ac iach, ac os yr Arglwydd a'i myn, cawn glywed Mr. Jones yn pregethu droeon eto. Ymateb y mae i gais taer oddi wrth y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain am iddo ymgymryd â llanw'r swydd o Brifathro yng Ngholeg Diwinyddol Caerfyrddin. Credai'r Bwrdd hwnnw fod ynddo gymhwysterau i gyflawni'r gwaith a ddisgwylir oddi wrth Brifathro. Yr ydym ninnau o'r un gred. Mae ganddo'r wybodaeth angenrheidiol. Mae'n ŵr gradd yn y Celfau ac mewn Diwinyddiaeth. Mae ganddo feddwl wedi ei ddiwyllio. Mae'n meddu ar iaith Gymraeg ddiwylliedig a modern. Ac nid yn ei gyfer y bydd yn siarad yr iaith honno. Mae'n dewis ei eiriau a'i frawddegau'n ofalus, a bydd yn eu llefaru nid mewn llais uchel a stwrllyd ond yn ddigon uchel i'w gynulleidfa eu clywed ac mewn modd dealladwy iddi. Hefyd y mae ganddo ysbryd wedi ei ddiwylio, ysbryd y ddoethineb oddiuchod. A rhai o nodweddion yr ysbryd hwnnw yw bod yn heddychlon, tangnefeddus, teg, boneddigaidd, a hawdd ei drin. A chymeriad felly yw Mr. Jones. Un pwyllog yw hefyd, ac y mae pwyll yn un o'r saith rhinweddau Cristnogol. Y mae'n dawel ac ystyriol yng nghanol holl rwystrau'r byd. Dealla mai mewn llonyddwch a phwyll y mae amgyffred dirgelion gwirionedd Duw a bywyd. Credaf ei fod yn cofio yn aml eiriau'r Apostol Iago, 'Caffed amynedd ei pherffaith waith.'

Y mae i fyny â'i amser yn ei ddarllen. Gŵyr beth yw gogwydd meddwl meddylwyr mawr y byd yn y gwyddorau. Bu'n efrydydd yn y Coleg y mae'n awr yn Brifathro arno. Y mae ganddo felly

wybodaeth am a phrofiad o fywyd myfyriwr. Gŵyr am ei anawsterau a'i broblemau, ei bryderon a'i ofnau. Ac oherwydd hynny gall fod yn gymorth iddo, a chymorth hawdd ei gael mewn cyfyngder. Nid un i greu arswyd ac ofn i ddynesu ato yw Mr. Jones. Nid oes mur na chlawdd i neidio drosto er mwyn dod ato. Nid oes ganddo 'iron curtain' i'ch gwahanu oddiwrtho. Dywed ei ysbryd a'i ymddygiad, 'Deuwch ataf fi, a pheidiwch â chadw draw'."

Ar ran y gynulleidfa estynnodd Mr. John Henry Morgan, organydd yn yr eglwys am 66 mlynedd, i Mr. Jones oriawr aur, demi-hunter, ynghŷd â siec "answm ei maint." Estynnodd y Parchedig Lewis Morgan, ar ran deiliaid yr Ysgol Sul, fountain pen iddo, ac ar ran ei ddosbarth yn yr Ysgol Sul, estynnodd Mr. B. Llewelyn Hopkin, sydd yn awr yn fyfyriwr yng Ngholeg Caerfyrddin, i Mr. Jones cigarette case a lighter. Ar ran Cymdeithas y Chwiorydd estynnodd Mrs. M. Cope i Mrs. Jones Bedside Lamp a Toilet Bag. Ar ran yr Ysgol Sul estynnwyd iddi dlws (brooch) gan Miss M. A. Morgan.

Wrth ddiolch drosto'i hun a'i briod mynegodd Mr. Jones ei awydd i roi i'r gynulleidfa ddau ddarlun o'r gynulleidfa "wrth ei gwaith." Tynnwyd y lluniau yng nghwrdd agor y Neuadd ar Fehefin 27, 1938. Derbyniwyd hwy gan lywydd y cyfarfod.

Ni allai Mr. Jones grynhoi popeth a ddymunai ddweud i gwmpas araith mor fyr, ond gwyddai pawb fod ei fywyd wedi gwreiddio'n ddwfn yn y gymdogaeth. Gwelodd lawer o hapusrwydd yn yr un flynedd ar bymtheg. Yr oedd ei gartref yn rhan ohono. Oni bu gyda'r adeiladwyr yn ei godi? Ni fwriadodd erioed ymadael, ond taerineb dwys cymhelliad arall a orfu, a chymer yntau gyfrifoldeb newydd. Ni bydd ei gyfrifoldeb newydd yn ei symud yn llwyr o gylch ei fugeiliaeth. Diolchodd iddynt am eu rhoddion ac am yr ysbryd o'r tu ôl i'r rhoddion. Diolchodd i swyddogion ac aelodau cynulleidfa Gellionnen a'r Graig am barodrwydd eu cymorth bob amser. Diolchodd i'w gydweinidogion am eu cyfeillach a'u cydweithrediad, ac i bawb yn y gymdogaeth a ddaeth oddifewn i gylch ei gyfeillgarwch.

Ar ran y gynulleidfa siaradodd pedwar o'r ffyddloniaid. Dywedodd Mr. D. J. Bowen, a fu'n drysorydd yr eglwys am 25 mlynedd, ei fod yn sicr ei feddwl am lwyddiant Mr. Jones yn y dyfodol. Cymer arno'i hun gyfrifoldeb mawr i baratoi bechgyn ieuainc ar gyfer y weinidogaeth.

Dywedodd Mr. Dl. W. Bowen, a fu'n ysgrifennydd yr eglwys am 35 mlynedd, iddo ysgrifennu'r alwad i Mr. Jones, a thaflodd olwg yn ôl i'r amser hwnnw. Yr oedd ganddo feddwl uchel am gymhwysterau'r gweinidog.

Bu donioldeb Mr. Benjamin Thomas yn help i achub y cwrdd rhag mynd yn rhy ddifrifol. "Er fod gan Mr. Jones ddau gapel,

dim ond un sy ganddo." Yr oedd yn teilyngu popeth a ddywedwyd amdano yn y cyfarfod.

Cyfeiriodd Mr. Ioan Davies at ymddygiad Mr. Jones ymhlith ei aelodau ac at bynciau ei genadwri yn y pulpud.

Siaradodd y Parchedig Basil Viney, Abertawe, am bwysigrwydd ei waith newydd yn yr enwad, ac yr oedd yn sicr y byddai Mr. Jones yn llanw y swydd gydag urddas. Anrhydeddwyd ef ag anrhegion ; dywedwyd geiriau da amdano. Ond yr anrhydedd pennaf y gallai'r gynulleidfa dalu iddo yw parhau mewn ffyddlondeb a dangos yr unrhyw serch tuag at ei olynydd.

Yn ei ffordd wreiddiol ei hun talodd y Parchedig D. G. Jones, Soar, deyrnged i Mr. Jones fel cyd-weinidog. Cydnabyddai ei ysgolheictod, ond ei gymhwyster pennaf, yn ei farn ef, oedd ei ffordd naturiol i gyflawni ei ddyledswyddau. Cofiai Mr. D. G. Jones ei fod yng nghyfarfod ymadael y diweddar Barchedig T. J. Jenkins.

Am fod yr amser yn diflannu siaradodd y Parchedig W. J. Rees, Alltwen dros ei gyd-weinidogion. Llongyfarchodd Mr. Jones a'r gynulleidfa ar yr anrhydedd a ddaeth iddynt. Yr oedd ganddo feddwl uchel iawn am Goleg Caerfyrddin a pharch enfawr tuag at ei hen Brifathro, y diweddar W. J. Evans. Teimlai chwithdod o feddwl fod Mr. Jones yn ymadael, a gwyddai nad oedd neb wedi blino ar ei gwmni. Edmygai ef ei ffordd urddasol i gyflawni dyledswyddau gweinidog, ei barodrwydd, ei gyfeillgarwch, a'i foneddigeiddrwydd. Angen mawr ein gwlad heddiw, meddai Mr. Rees, yw cynhyrchu pregethwyr, ac at y tasc hwnnw y mae gan Mr. Jones gymhwysterau neilltuol.

Yn siarad fel cymydog ar ran Gosen a'r ardal yn gyffredinol diolchodd y Parchedig Dl. John i Mr. Jones am ei gydweithrediad parod drwy'r blynyddoedd.

Cyfeiriodd y Dr. R. Ogwyn Jones, un o blant yr eglwys ac aelod o'r Bwrdd Presbyteraidd, at fanyldeb yr apwyntio, a da ganddo ef weld Cymro yng Nghaerfyrddin. Ymhlith pethau eraill ei weinidogaeth, diolchai ef yn bennaf i Mr. Jones am ei ofal trwyadl am hen Gapel Gellionnen.

Ni chaniatai amser i'r gweinidogion eraill siarad, y Parchedigion W. T. Owen, Tabernacl ; J. Rowland Jones, Adullam ; R. Lloyd Davies, Rhydyfro ; Morgan Jones, Danygraig ; J. T. James, Baran ; J. D. Jones, Soar ; a Noel James, Pontardawe.

Gorffennwyd trwy weddi gan y Parchedig Noel James. Canwyd unawd yn ystod y cwrdd gan Mr. Richard Lewis. Wrth yr organ yr oedd Mr. I. E. Hopkin.

Y Mudiad Undodaidd yn Aberystwyth.

Gan Dr. D. J. Davies, B.A.

(*Parhad*).

Ni ddigwyddodd dim o bwys mawr rhwng y blynyddoedd 1924 a 1928. Gwir i amryw bethau o gryn ddiddordeb ddigwydd yn ystod yr amser yma, ond nid oedd gan y rhan fwyaf o honynt gysylltiad uniongyrchol â'r mudiad fel mudiad. Gellir nodi rhai o honynt. Ar Sul, 5 Gorffennaf, 1925, talwyd ymweliad â'r gynulleidfa gan Gymro enwog o'r Amerig, sef y Parch. Ddr. William S. Morgan, athro mewn Athroniaeth yn yr Athrofa Ddiwinyddol Undodaidd ar gyfer y Weinidogaeth yn Berkeley, California. Traddododd anerchiad byr ar ddiwedd y gwasanaeth arferol yn datgan ei hyfrydwch ef a'i briod o allu bod gyda ni y bore hwnnw ac ar yr un pryd yn cyflwyno inni gyfarchiadau calonnog Undodiaid yr Unol Daleithiau. Diddorol oedd deall fod y diweddar Barch. Ddr. William Griffiths yn un o'i gyd-efrydwyr ym Mhrifysgol Yale. Ar Sul, 8 Mai, 1927, dathlodd y gynulleidfa ei phumed blwydd ar hugain o wasanaeth i Dduw a dyn, ac ar amgylchiad nodedig fel hwn gwahoddwyd y diweddar Brifathro J. Park Davies, o hoffus goffadwriaeth, i gymryd y gwasanaeth, yntau yn hen efrydydd o'r Coleg ger y Lli ac ysgrifennydd cyntaf y gynulleidfa. Daeth amryw i wrando arno nad oeddynt yn arfer mynychu'r addoliad, a chafwyd oedfa i'w hir gofio. Ymhlith y rhai a oedd yn bresennol 'roedd Mr. John Hughes, M.A., athro mewn Addysg yng Ngholeg y Brifysgol a hen gyfaill i'r pregethwr am y dydd oddiar yr amser, mi dybiaf, pan oeddynt yn gyd-ddisgyblion yn Ysgol Sir, Llandysul. Ychydig yn wahanol yw'r digwyddiad nesaf sydd gennyf i'w gofnodi, ond er yn wahanol eto yn werth ei gofnodi, mi gredaf. Yn arholiadau Prifysgol Cymru mis Mehefin 1927 enwogodd tri o blant Mr. A. T. Grindley eu hunain trwy gymryd eu graddau gydag anrhydedd, dau o honynt, sef Daisy a John, yn y dosbarth blaenaf, a'r llall, Philip, yn yr ail ddosbarth, a'r tri ar y pryd yn aelodau ffyddlon o'r gynulleidfa. Fe gofia'r darllenydd craffus mai John oedd ein trysorydd. Cyn mynd ymlaen i son am yr amgylchiad pwysig a ddigwyddodd yn 1928 rhaid dweud rhyw ychydig am rai ffyddloniaid a oedd gyda ni yn ystod y pedair blynedd a enwais uchod.

Tua dechrau mis Hydref 1924 daeth i'r lan i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth fachgen a merch ieuanc o ardal Llanbedr a fu am y pedair neu bum mlynedd nesaf yn dŵr o gadernid i'r Achos Bach yma. Hanai'r ddau o deuluoedd a fu am flynyddoedd yn ffyddlon ac yn weithgar gyda'r mudiad Undodaidd yn sir Aberteifi, ac nid

rhyfedd felly eu bod hwy yn para yr un fath. Yn unol a'r rheol "Merched ynghyntaf" carwn yn y lle blaenaf ddweud ychydig eiriau am y ferch ieuanc.

Merch Mr. a'r diweddar Mrs. James Davies, Llwynifan, Cellan, oedd hi, a'i henw Miss Sarah H. Davies, ond wrth yr enw "Sali Llwynifan" yr adnabyddir hi o hyd gan ei chyfeillion. Fel y dywedais yn barod daeth i'r lan i'r Coleg yma ym mis Hydref 1924, ac nid wyf yn meddwl iddi golli un gwasanaeth yn y Capel bach tra fu yma, oddigerth am resymau anorfod. Yn wir, mor ffyddlon oedd fel y dywedodd rhywun wrthi ar ôl y gwasanaeth ryw fore Sul air o edmygedd yn gymysg a pheth syndod at ei ffyddlondeb, a hynny ynghlyw fy nghyfaill W. S. Jones. Yntau yn ateb ar unwaith : "O, pe baech yn adnabod ei mamgu, fuasech chwi ddim yn synnu ei bod mor ffyddlon." Cyfeiriai wrth gwrs at Mrs. Davies, Trebannau, Cellan, dynes a oedd yn llawn brwdfrydedd dros yr achos Undodaidd—y mwyaf brwdfrydig ond odid o neb a gwrddais erioed. Da iawn gennyf ddeall fod Sali yn dal mor ffyddlon i'r achos yng Nghaeronnen ag 'roedd hi yma.

Ac yn awr ychydig eiriau am y bachgen y soniais amdano. Gwilym Davies oedd ei enw, a nai—mab i gefnder—i'r diweddar Barch. J. Hathren Davies oedd. Nid rhyfedd felly ei fod yntau yn ffyddlon i'r achos da. Mae ei dad wedi blaenu er's blynyddoedd, ond y mae ei fam yn fyw o hyd ac yn byw, hi a'i merch, Megan, yn Llundain. Mis Hydref 1924 y daeth Gwilym i'r lan yma hefyd a bu yn ffyddlon trwy gydol ei yrfa yn y Coleg. Yn herwydd ei allu anarferol bron i ganu'r berdoneg a'r organ dewiswyd ef yn organydd y gynulleidfa yn y cwrdd blynyddol cyntaf wedi iddo ddod yma, ac ef a fu ein horganydd tra bu yma. Wedi gadael y Coleg aeth i Lundain i dŷ enwog Harrod ac yno y mae o hyd yn dringo i fyny o ris i ris. I ble y cyrraedd yn y diwedd ni wn, ond llawenychaf yn ei lwyddiant a dymunaf iddo ragor eto. "Uwch, uchach yr êl." Da iawn gennyf ddeall ei fod yntau hefyd yn para yn ffyddlon i'r mudiad Undodaidd Cymraeg yn Llundain, ac hefyd ei fam a'i chwaer fel ag yr oeddynt yma.

Fel y dywedais uchod, yn Llundain y mae mam a chwaer Gwilym Davies yn byw yn awr, ond buont yn byw yma am rhyw ddeng mlynedd, mwy neu lai. Daethant i'r lan yma o ardal Ram, Llanbedr, yng ngwanwyn 1925, ond nid wyf yn cofio yn iawn pryd y gadawsant am Lundain. Tra yma buont yn ffyddlon iawn i'r gwasanaethau yn y Capel Bach ac yn weithgar iawn gyda'r achos. Bu Megan hefyd am rai blynyddoedd yn ysgrifennydd y gangen leol o Cynghrair y Gwragedd a gwnaeth ei gwaith i fodlonrwydd cyffredinol. Da iawn gennyf ddeall eu bod hwythau fel Gwilym yn ffyddlon gyda'r mudiad Undodaidd Gymraeg yn Llundain.

Argraffiadau Bore Oes.

[Cyfrannwr cyson i'r Ymofynnydd am flynyddoedd maith y bu'r Parchedig D. Delta Evans, Golygydd *The Christian Life* (1902—1929). Ychydig cyn ei farw annisgwyl yn Ysbyty Coffa Rhyl (Mai 24, 1948) derbyniais oddiwrtho yr ysgrif fer hon. Dyma'r darn olaf o'i law ef ei hun a ymddengys yn ein misolyn, ac wrth ei ddanfon i'r argraffwyr ni allaf lai nag wylo deigryn distaw wrth fedd sydd ymhell oddiyma ym mynwent y plwy, Dyserth, Sir y Fflint. Yn Delta collasom ffrind a chefnogydd cadarn : ef oedd ein cenhadwr yng ngogledd Cymru. Darllenwn, gyfeillion, ei eiriau olaf yn ystyriol. Y mae grym eu hapel yn cymell.—*Golygydd*].

Dro yn ôl, bûm yn gwrando ar weinidog amlwg yn ei gyffiniau yn sôn am y fath beth ag *eiddo*—golud, neu gyfoeth. "Nid oes unrhyw un," meddai, "na ffermwr, na masnachwr, na neb arall, a fedr haeru'n bendant : 'Fy eiddof *fi* yw y rhain—myfi *piau'r* pethau hyn ! ' Oblegid unrhyw foment fe all eu colli ; ac yn sicr ichwi, yn hwyr neu hwyrach fe'u cymerir i gyd oddiarno !" Yr oedd y bregeth yn ddoniol, ymarferol, a thra amserol, a phob brawddeg yn gafael. Ac eto, wrth wrando, ni allwn beidio â meddwl mai am bethau *materol* yn unig yr oedd yr hyn a ddywedwyd yn wir. Nid gwir mohono am argraffiadau dedwydd ac atgofion melys bore oes—y dylanwadau daionus a wnaethpwyd arnom ar aelwydydd cysegredig Cymru gynt a chan athrawon meddylgar yn yr Ysgol Sul. Yr eiddom ni, y rhai hŷn heddiw, yw y rhain mewn gwirionedd—nyni *piau* hwynt. Ac onis collwn hwynt trwy drais neu ddifrawder, arhosant gyda ni tra byddom yma ; ac *od oes* "byd a ddaw," byddant gyda ni byth bythol ! . . . Yn y rhaglen " 'Stalwm" ar donfedd Gymraeg y B.B.C. ceid tipyn o sôn am rai o arferion ac amgylchiadau ardaloedd neilltuol yn y dyddiau gynt. O angenrheidrwydd, plwyfol a phersonol ydoedd llawer o'r hanesion darniog. Er hynny, ar brydiau yr oedd rhai ohonynt o ddiddordeb cyffredinol, yn dra awgrymol, ac yn werth gwrando arnynt. Yn wir, os ydwyf yn deall yn iawn y prif amcan mewn golwg, cnewyllyn neges yr "hen bobl ifanc" yn y seiadau hyn ydoedd apelio at dadau a mamau Cymru gyfan i fod yn dra gofalus pa fath argraff a wneir ganddynt *hwy* ar blant eu haelwydydd yn yr oes ryfedd ac anwadal hon. Newid o oes i oes a wna damcaniaethau diwinyddol a defodau eglwysig, ynghyda llu o bethau dibwys eraill ; eithr yr un peth ymhob oes a gwlad ydyw cymeriad personol glân, doeth, da. Yr un hefyd trwy gydol yr oesoedd ydyw *duwioldeb*, y sydd "yn fuddiol i bob peth." . . . Rieni "modern" Cymru, gwyliwch pa fath *argraff* a wneir gennych ar eich plant ! Chwithau fechgyn a

genethod annwyl yr hen wlad, er gwaethaf pob peth byddwch ffyddlon i draddodiadau diwylliadol bro eich genedigaeth a dylanwadau *gorau* eich cartrefi ! Peidiwch ar un cyfrif â diystyru'r Iaith Gymraeg. Lle bynnag y boch, a pha beth bynnag a ddigwydd, byddwch wych, a bendith y Goruchaf a fyddo gyda chwi !

Dewi Hiraddug.

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru.

Cynhaliwyd Cyfarfodydd y Gymdeithas uchod dan lywyddiaeth y Parch. J. Islan Jones, M.A., nos Fawrth a dydd Mercher, Tachwedd 9 a'r 10. Nos Fawrth, gyda chynulliad gwir dda, gwasanaethodd y Parch. J. Marles Thomas, M.A. gydag arddull wych a chawsom bregeth wreiddiol a chanmoladwy iawn.

Brynhawn Mercher bu y Parch. S. E. Bowen a'r Parch. E. O. Jenkins yn traddodi'r Efengyl bur a threiddgar gyda phob derbyniad. Ac yn yr hwyr, yn absenoldeb y Parch. T. O. Williams, M.A., drwy afiechyd, y Prifathro, y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. yn gwasanaethu gyda dwyster a doethineb. Cafwyd cynulleidfaoedd dymunol drwy y dydd. Miss Evans, Dedwyddfa, gyda'i ffyddlondeb arferol oedd wrth yr Organ ; a Mrs. Davies, y Fedwen a ddarparodd y bwyd blasus a ganmolwyd gan bawb o'r ymwelwyr.

Cofnodion y Pwyllgor.

Cyfarfu Pwyllgor y Gymdeithas yng Nghapel y Graig, Llandysul, dydd Mercher, Tachwedd 10. Cadeiriwyd gan y Llywydd, y Parchedig J. Islan Jones, M.A.

Golygydd yr Ymofynnydd.—Gwahoddwyd y Parchedig D. Jacob Dafis, B.A. yn olynydd i'r Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D. yng ngolygyddiaeth Yr Ymofynnydd. Bydd yn dechrau ar y gwaith gyda rhifyn Ionor 1949.

Penrhiw.—Cafwyd hir drafodaeth ar y mater o'i drosglwyddo i Amgueddfa Gwerin Cymru. Penderfynwyd, pawb yn cydsynied namyn dau, ein bod yn cymeradwyo'r ymddiriedolwyr i gwrdd yn foddhaol a'r cais oddi wrth y Dr. Iorwerth Peate, Ceidwad yr Amgueddfa.

Gweithredoedd St. Clears.—Mynegodd Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc. eu bod yn ei feddiant ef, ac ar ei gais penderfynwyd eu gosod yn y Llyfrgell Genedlaethol er mwyn eu diogelu.

S. E. Bowen, *Ysgrifennydd.*

"Gneud Plwm Pwding."

(Stori yn nhafodiaith Llandysul).

Fuodd Mari 'co yn gneud Plwm Pwding wthnos ddwetha a na chi'r helger rhifedda weles i ariod. Mae 'run peth stil wrth gwrs, ond leni odd hi'n wath bith. Y peth cinta sy'n digwydd bob blwyddyn yw colli'r resipi, a dyna lle bidd hi yn whilo a twmlo, lan a lawr, nôl a mlân, miwn a mas. Ond fidd dim sinc amdano fe, a ma raid i gal e, achos, allwch chi neud rhwbeth bach fel bara wan two heb resipi, ond am beth mowr fel plwm pwding allwch chi bith neud e mas o'ch meddwl.

Yn y diwedd ta beth, ma raid iddi find i weld Mrs. Hyphen-Jones, cadeiridd y wimens lîg, achos ma llifir mowr gida hi ar y pethe hin. Wedi jimo tipin, gwisgo hat a plifen a rhoi jililings a miwglis obiti gwddwg, mae'n gwisgo'i danne dodi, a off a hi. Dim ond at dri pheth ma Mari'n gwisgo danne dodi, lwchi—angladde, cwrdde diolchgarwch a mind i weld Mrs. Hyphen-Jones. Seisnes yw honno ichi'n diall, a ma Mari'n ffeindo fod danne dodi'n help i sharad Sisneg.

Ond dinna sy'n afi obiti 'ddi, wedi câl y resipi, ma shwt bethe rhifedd yndo fe. Gil o un peth a desert spŵn o rwbeth arall, a rhiw hen gomadiwe felna. Ma hinni'n ôl reit i wŷr byddigions, ond dim ond llwye powtir, lletwate a basnis sy gida ni at fesur yn y pantri co, a dinna Mari mewn picil ar unwaith. Ond whare teg iddi, mae'n galler geso'n weddol gowir. A fydde'i ddim gwell o fesur a phwyso, achos fe fydde rhai o'r plant co shwr o sgwlcan rhwbeth, a dinna chi man a man a Shanco wedin. A felni oddi hi leni, gorffod i fi roi whirell wrth fôn clust Shincyn y crwt lleia achos dinna lle'r odd e'n bochio a chonio yn y cwdyn cyrens fel mochin heb i wirso.

'Nawr, wi'n lico'm bach o roch miwn plwm pwding. Rhw flas bach i gidjo yn y nhafod i, a ma Mari'n diall y ngwendid i gistled a neb, whare teg iddi. A wedi cimisgi'r cwbwl yn y basn llath enwyn, mai'n rhoi tipyn bach o esens o rym ar ben y bechingalw'i gyd, ichi'n gweld. Dim ond un dropyn bach sy ise, achos mae e'n stwff mor gryf. Wel, leni, pan odd Mari wedi tynnu'r corcyn mas, ac yn watsho'r diferyn yn dod dros imil y botel, dyna'r drws yn agor a phen Mr. Jones y prigethwr yn dod i'r golwg. Fe gas Mari shwt start nes cwmpodd y botel glwriwns lawr i'r basn pwding, a na chi'r smel rhifedda glwes i ariod. Odd e'n dod yn donne mowr dros y gegin i gyd, nes gallech chi dingi'ch bo chi yng nghanol briweri fowr. Fe ath Mr. Jones yn wyn reit, a feddylies i am funud fod e'n myn i ffeinto, achos mae e'n ddirwestwr selog.

Ta beth fe isteddodd lawr o'r diwedd, a fe danes i mhib ar unwaith a treio whwthi mwg i wmed e yn ddistaw bach i gadw'r smel

off. A trw buo ni'n sharad biti'r tewy a phopeth, odd Mari wrthi fel doi i dreio cal yr hen beth miwn i'r basnis a mas o'r golwg. A felny buodd hi ; fe rwymodd nhw lan mewn cymint o sachabwndi a alle hi, a miwn a nhw i'r dŵr dros i penne. Odd smel wedyn, ond fe ath Jones whap, a dyna beth odd gwaredigeth. Rhwng mwg a smel odd y gegin erbyn hyn fel gwaith côl tar.

Ond dyna fe, ma'r pwding yn barod ta beth ; wn i ddim shwt flas fydd arno fe. Dyna'r gweitha o fyw mewn hen dŷ a drws y ffrynt yn y bac—ma dynion yn dod ar y'ch traws chi rho gwbod i chi. Odd Mr. Jones ddim fod yn y resipi, ond odd i flas e ar y plwm pwding leni wi'n shwr o hynny.

D. Jacob Dafis.

Y Gymdeithas Gyffredinol.

Cyfarfod y Pwyllgor.

Cynhaliwyd yn Leeds ar Hydref 22, y Llywydd, yr Athro F. J. M. Stratton yn y gadair. O'r agenda hir detholir y trafodion sydd helaethaf eu diddordeb. Parodd adroddiad y Llywydd am ei ymweliadau â'r cynulleidfaoedd gryn lawenydd. Diddorol hefyd ydoedd adroddiad yr Ysgrifennydd Cynorthwyol (Parchedig H. H. Chetham) am ei ymweliadau â'r ysgolion Sul.

Y Weinidogaeth.—Derbyniwyd awgrymiadau Pwyllgor y Weinidogaeth ar baratoadau mwy effeithiol ar gyfer y pregethwyr lleyg sy'n awyddus i'w cydnabod fel gweinidogion. Bydd y pregethwyr lleyg bellach yn dod dan gyfarwyddyd y Colegau Diwinyddol.

Costau'r Pwyllgor.—Pery costau teithio'r aelodau gryn bryder i'r Trysorydd, ac y mae Is-bwyllgor eisoes yn delio â'r mater hwn. Gofynnir hefyd am gynnydd yn incwm blynyddol y Gymdeithas.

Dwy Gynulleidfa Newydd.—Cydnabuwyd cais dwy gynulleidfa i'w cydnabod gan y Gymdeithas : Cristnogion Rhydd yn Stockport a Macclesfield.

Penderfyniadau.—Penderfynwyd ail-drefnu'r rheolau ynglŷn â phenderfyniadau ar faterion cyhoeddus yn y Cwrdd Blynyddol.

Apel.—Trafodwyd yr apel oddi wrth Goleg yr Undodiaid ym Manceinion am gymorth ariannol. Yn y drafodaeth ystyriwyd anghenion y weinidogaeth am y blynyddoedd nesaf.

Gwasanaeth.—Llawenydd ydoedd deall fod Mr. Ronald P. Jones wedi cyflawni deugain mlynedd o wasanaeth i'r enwad mewn llawer cylch. Ers blynyddoedd bellach ef yw ysgrifennydd y Sustentation Fund a Thrysorydd y Gymdeithas Gyffredinol.

Diolch.—Diolchwyd i gynulleidfa Capel Mill Hill am y croeso, a dymunwyd yn dda iddi ar ddathlu canmlwydd adeiladu'r capel presennol.

Y Cwrdd Croeso.

Yn yr hwyr yng ngŵydd cynulleidfa fawr croesawyd pump o weinidogion a dderbyniwyd i'r weinidogaeth yn ystod y flwyddyn. Estynnwyd iddynt ddeheulaw cymdeithas gan y Llywydd. Yn eu plith y mae dau Gymro, y Parchedigion E. D. Evans (Stalybridge) a R. I. Pritchard (Middlesborough). Y lleill yw'r Parchedigion H. A. Gore (Bury St. Edmunds), J. Unsworth (Accrington), a W. T. Wilkins (Dudley). Derbyniwyd un arall yn ei absenoldeb, y Parchedig A. Hodgkins (Vancouver). Arweiniwyd yn y gwasanaeth gan y gweinidog, Parchedig E. Shirvell Price, gynt Abertawe, a phregethwyd gan y Parchedig Percival Chalk, Gee Cross.

Priodasau.

Hydref 23, yn Llwynrhydowen, JOHN JONES, Glyncoch, Pontshan a SARAH GWYNETH WILLIAMS, merch hynaf Mr. a Mrs. Griff. Williams, Glasfryn, Pontshan. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion E. O. Jenkins a S. E. Bowen.

Tachwedd 24, yn Eglwys Llanfihangel-ar-Arth, THOMAS OWEN GRIFFITHS, mab Mrs. Griffiths, Gwalia, Talgarreg, a'r diweddar William Griffiths, Y Fadfa, a MARTHA ANN JONES, unig ferch Mr. a Mrs. Daniel Jones, Eagle Inn, Llanfihangel-ar-Arth. Gwasanaethwyd gan y Ficer, y Parchedig Daniel Evans a'r Parchedig E. O. Jenkins.

Marwgofion.

Mehefin 17 wedi damwain bu farw STANLEY PRICE, M.A., Llanbedr, yn 56 mlwydd oed. Adwaenem ni yma Stanley fel un o'n bechgyn disgleiriaf. Fe'i haddysgwyd yn Ysgol y Coleg, Llanbedr, Coleg Dewi Sant a Cholcg Iesu, Rhydychen. Fe'i galwyd yn fargyfreithiwr yn yr Inner Temple ac am unflynedd ar hugain bu'n Oruchwyliwr Addysg Northern Nigeria. Yn ystod y rhyfel mawr 1914—1918 yr oedd yng Nghatrawd Nigeria ac yn ystod y rhyfel diwethaf ymaelododd yn y Llu Awyr, a gwasanaethodd yng Nghanada a gartref. Wedi iddo ddychwelyd o Nigeria ymdaflodd i fywyd gwleidyddol a bu yn ymgeisydd Seneddol fel Rhyddfrydwr Cenedlaethol. Dywedai Syr Rowland Evans amdano, "Stanley Price was a man of high character and intellectual integrity. He had an unusually keen political intelligence and a natural gift for friendship. With all his gifts and attainments, he was essentially modest." Ar Orffennaf 8 yn y Kings Chapel, Savoy, Llundain cynhaliwyd gwasanaeth coffa iddo a thraddodwyd yr anerchiad gan yr Anrhydeddus John Maclay, C.M.G., A.S. a thalodd deyrnged

deilwng i'w goffa—"His going must leave sorrow and a sense of irreparable loss, but he, I am certain would have wished that our thoughts today above all should be of gratitude for such a life of useful service, although he himself would have been the last to believe that ; to everyone who knew him he has set an example difficult indeed to equal." Dyna ydoedd yn Nigeria a Llundain ond ym Mrondeifi ystyriem Stanley yn un agos atom, bob amser ar ei wên a bob amser yn hawddgar. Hannai o hen gyff Undodaidd ac yr oedd yn llinach y Parch. Arthur Williams, un o hen ysgolfeistri ysgol ramadeg Llanbedr tua 1800, ac y mae'i fedd ym mynwent eglwys y Plwyf. Y mae'r teulu cerddgar—teulu Arthur Price fel y dwedem ni wedi gwasgar ; y mae un brawd a thair chwaer yn aros ac y mae'n cydymdeimlad gyda phriod yr ymadawedig, a chyda'r teulu i gyd, ond yn arbennig gyda Lottie yn ei chystudd a'i hunigedd. Rywsut y mae bywyd yn dlotach o golli Stanley ac y mae llu o'u gyd ffordd-olion a oedd yn yr ysgol ac ym Mrondeifi a'r dref gydag ef yn teimlo'n drist o'i fynd a hynny ar amrantiad.

Awst 7, yn 89 mlwydd oed, bu farw THOMAS DAVIES, Delville, New Street, Llanbedr neu Tomos y Gôf fel yr adwaenir ef gan bell ac agos. Un o hen gymeriadau Llanbedr ydoedd, wedi byw yma dros drigain mlynedd gan ddilyn ei grefft yn Nrovers Road, Llanbedr a chrefftwr heb ei fath ydoedd, a ' phedolwr ' a berchid gan ardal eang. Cafodd weld tuhwnt i ddyddiau'r addewid, a theimlai y blynyddoedd yn y diwedd yn "boen a blinder iddo." Yr oedd o gyfansoddiad cadarn ond yn yr "efail" y bu'i ddiddordeb drwy gydol bywyd. Difyr oedd bod yn ei gwmni, ac yntau'n sôn am hen gymeriadau slawer dydd. Gwnaeth ddiwrnod da a chaled o waith, a gydag ef y mae'r hen oruchwyliaeth o ofaint wedi mynd. Bu yn aelod ffyddlon ym Mrondeifi drwy gydol bywyd ac ef oedd yr aelod hynaf yma. Nid oedd yn medru dod atom ers tro ond carai holi ein hynt. Claddwyd y dydd Mercher dilynol a'r angladd yn anghyoedd ym mynwent Brondeifi, a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd ddau fab ac un ferch a nifer o berthynasau (a bu'i nith yn garedig wrtho i'r diwedd) heblaw nifer o hen gydnabod a ffrindiau i alaru ar ôl yr olaf megis o'r hen frigade ym Mrondeifi.

Bu farw ar Hydref 10, yn 77 mlwydd oed, Mrs. MARY MORGAN, annwyl briod Mr. John Henry Morgan, Swansea Road, Trebanos. Er inni ei gweld yn dihoeni yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yr oedd yr ysbryd bywiog a'i nodweddai yn cuddio oddiwrthym wir gyflwr ei hechyd. Gwelsom hi lawer tro'n cadw'r gwely yn hir, ond gwelsom hefyd yr adfywiadau mynych, a hithau unwaith eto'n llawn o egni bywyd. Dynes groesawus, garedig ydoedd, yn fawr ei gofal am ei chartref, a mynnai fod popeth yn lanwedd ac yn ei le yno. Cyhyd ag y gallai, ac yn fynych pryd na ddylai mewn gwirionedd, yr oedd yn ei sedd yng Nghapel y Graig. Yr oedd ei ffyddlondeb i'r cwrdd uwchlaw'r cyffredin, ac nid rhyfedd hynny—onid yw ei phriod yn un o bileri'r achos ? Gwir fod yma organyddion eraill, ond yr oedd ef yn gweinyddu wrth yr organ cyn geni'r un ohonynt hwy. Dechreuodd yn ifanc iawn, ac y mae'n para'n llewyrchus o hyd, wedi gwasanaethu

am gyfnod o 66 o flynyddoedd. Cydymdeimlwn yn fawr ag ef yn ei unigedd, ac a chysylltiadau'r teulu. Hanoedd Mrs. Morgan o un o hen deuluoedd Trebanos. Claddwyd wrth Gellionnen y dydd Iau dilynol, a'r Parchedigion J. D. Jones, Lewis Morgan a Dl. John yn gweinyddu.

Tachwedd yr ail, yn 46 mlwydd oed bu farw yn ddisymwth, "JENNIE," merch y diweddar Mr. a Mrs. Williams, Postgwyn, Llanbedr. Gwanaidd ydoedd o iechyd ers blynyddoedd lawer a bu droion mor wael nes disgwyl ohonom y diwedd. Yn ddiweddar yr oedd wedi adfywhau a chredem ei bod wedi trechu ei dolur ond ychydig amser cyn y diwedd gwelid angau'n gafael yn dynnach ac ehedodd adref yn ei chwsg. Huno yma ym Mhostgwyn a dihuno yng Ngwynfa. Merch lednais, dawel ac o galon dyner ydoedd, ac yn llawn sêl dros ei chapel fel y disgwylir un a hannai o deulu Postgwyn. Gadawodd fab ieuanc, un chwaer a nifer o berthynasau a chydnabod i wylo ar ei hôl. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol ym mynwent Brondeifi. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan weinidog ieuanc Noddfa, Llanbedr ac yn y Capel ac ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams (yn absenoldeb ei gweinidog oherwydd afiechyd).

Tachwedd 9, mewn modd anarferol o sydyn, SARAH RACHEL DAVIES, annwyl ferch Ioan ac Elizabeth Davies, Brynawel, Heol Newydd, Trebanos, yn 37 mlwydd oed. Yn paratoi i orffwys am y nos, cymrwyd hi yn glaf, ac mewn ychydig eiliadau yr oedd wedi mynd tu hwnt i bob gallu dynol. Gwannaidd o ran iechyd y bu trwy ei hoes, a dioddefodd yn enbyd oherwydd afiechyd gieuol a ymosodai arni yn fynych bron yn ddidrugarog. Yr oedd o ysbryd serchus a bywiog, ac ymladdai yn galed yn erbyn yr ymosodiadau mynych hyn. Rhyfedd sut y mae ysbryd llon a bywiog weithiau'n tabernaclu mewn corff eiddil ac afiach. Efallai fod hyn yn un o ddirgelion bywyd, pwy a wyr? Gwelwyd hi lawer gwaith ar ôl ei hadfer o afael yr ymosodiadau mynych hyn yn ei thaflu ei hunan a'i holl egni i waith y cartref a'r aelwyd. Hoffai yn enwedig ofalu am ei dau nai bychan, a charai hwynt a'i holl galon. Ar waethaf afiechyd byddai bob amser yn codi gyda'r wawr, ac yn ei thaflu ei hunan hyd yr eithaf i ofynion y dydd. Ni fedrai fod yn llonydd. Gwelir ei heisiau eisoes yn y cyfeiriad yma. Yr oedd greddf grefyddol gref ynddi, a hoffai fyfyrio yn y Beibl, yn enwedig y Salmau, a dysgodd lawer ohonynt ar ei chof. Yr oedd yn aelod selog o eglwys y Gellionnen a'r Graig, ac ymdrechai bob amser i'w phresenoli ei hunan yn y gwasanaethau, yr ysgol Sul, a'r ysgol gân. Cofir ei gweld lawer gwaith ar ôl dioddef yn enbyd yn y nos yn codi trannoeth ac yn llamu fel yr ewig dros y bryn i gyfeiriad hen gapel Gellionnen i gwrdd y bore. Yr oedd fel petai'r elfen grefyddol ynddi'n cael y trechaf ar ei hafiechyd blin. Diolchwn i Dduw ein bod fel hyn yn gallu sugno ysbrydiaeth o'r Ffynhonnell Ddihysbydd sy'n ein galluogi i godi ar adegau uwchlaw poen a blinder corfforol. Bellach y mae ei lle'n wag, a gwelwn ei heisiau'n fawr yn enwedig yn y cartref. Y mae'r teulu, yn enwedig ei mam, yn teimlo i'r byw ei cholli mor ddisymwth. Y mae cydymdeimlad ardal gyda'r teulu yn eu galar. Gadawodd ar ei hôl fam a thad, chwaer, brawd, tri nai, un nith' a nifer luosog o berthynasau. Claddwyd y dydd Sadwrn dilynol yng Nghoedgwilym,

ger Trebanos, a chafodd angladd parchus. Gwasanaethwyd gan y Prifathro J. D. Jones, Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchedig Dl. John, Gosen. Y cludwyr oedd chwech o ddiaconiaid Gelli-onnen a'r Graig. "Gorffwysed mewn heddwch."—*Ei Thad.*

Tachwedd 10fed, yn 68 mlwydd oed bu farw "POLLIE," annwyl briod Mr. Marsden, Coedmor, Llanddewi Aberarth, ond fel y'i hadwaenid yn Llanbedr Mrs. Marsden, Coedmor-fawr, a chyn hynny o Grugmaen, Llanwenog. Benyw dawel a charedig ydoedd a'i chanolbwynt oedd ei chartref. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers peth amser ond daeth y diwedd yn ddirybudd. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan yr Archddiacon Aldred Williams a'r Parch. D. James, cyn ficer Pencarreg. Yn y capel gwasanaethwyd gan y Parch. Pugh Jarman, Maenygroes, a phregethwyd gan y Parch. Lewis Williams (yn absenoldeb ei gweinidog, y Parch. T. O. Williams, oherwydd afiechyd), ac ar lan y bedd gan y Parch. T. Lloyd Jones, Ficer Pencarreg a'r Parch. T. Jones, Llanerchaeron. Claddwyd ei gweddillion marwol y dydd Llun dilynol, ym mynwent Capelygroes. Gadawodd briod, dau fab a dwy ferch, un brawd a nifer o berthynasau a chydnabod i alaru ar ôl un a gollwyd yn gynnar.

Tachwedd 11, yn 74 mlwydd oed, bu farw WILLIAM MORGAN, 1, Morgan Street, Trebanos. Yn y blynyddoedd diwethaf gwelsom ef am ysbeidiau hir yn gystuddiol, ond gwelsom ef eilwaith yn ailgydio'n ei waith ac yn mwynhau bywyd gyda'i asbri arferol. Dyn bywiog ydoedd, bywiog yn symudiadau ei gorff, bywiog yn ei feddwl. Yn ddarllenwr mawr, ni chai ef foddhad o ddarllen un papur dyddiol ; rhaid cael tri, o leiaf, yn cynrychioli'r gwahanol safbwyntiau. Yr oedd yn ddadleuwr wrth natur, a byddai ganddo lawer iawn o oleuni ar ei bwnc. Credaf na wn am un darllenwr mwy craffus o'r Ymofynnydd, ac ar lawer adeg derbyniodd y golygydd lawer o fudd o'i feirniadaethau. Ar yr aelwyd gartref y fam ydoedd gwir bennaeth y teulu, ac yr oedd ei chymeriad prydferth, llednais hi, ei phwyll a'i doethineb, yn llywodraethu ar holl symudiadau'r aelwyd. Ni bu gŵr erioed yn fwy ymwybodol o fawredd a chadernid dylanwad ei wraig na Mr. Morgan. Ni all neb a'i gwelodd anghofio effaith ei marw hi arno ef, ac ni all un a fu'n ymweled yn gyson â'r aelwyd wedi hynny anghofio'r gofal tyner a welodd y tad oddiar law ei blant. Dylasem ddiolch am aelwydydd lle y mae cariad teuluol yn cael ei le dyladwy, aelwydydd sy'n fagwrfa i'r rhinweddau gorau ym mywyd dyn. Ymfalchiai Mr. W. Morgan yn ei gartref. Gweithiodd yn galed gydol ei oes, yn ifanc yn y ffatri wlan gartref yng Nghraig Cefn Parc, wedi hynny yn y lofa. Ni bu'r gwaith dan y ddaear heb adael ei greithiau ar ei gorff. Amlwg ydoedd effeithiau awyr afiach a dwst y garreg. Yn ei ymgom ni allai guddio ei adnabyddiaeth o'r gwirioneddau sy'n gosod urddas a gwerth ar fywyd dyn ac yn rhoi ystyr ar strygl bywyd. Nid oedd ganddo gydymdeimlad a'r safbwynt sy'n pwysleisio ochr arall-fydol crefydd ar draul esgeuluso ufudd-dod i alwadau crefydd yn y byd gweledig hwn. Gwneud ewyllys Duw ar y ddaear—dyna sylwedd crefydd iddo ef. Os oedd Sosialydd, tyfai ei sosialaeth o wreiddiau yn y Testament Newydd, a'i Dduw ef oedd y Tad

sydd yn *gweithio* hyd yr awr hon. Tuedd mwyafrif crefyddwyr yw ystyried Duw fel Bod Hollalluog yn gweithredu y tu allan i'r byd, gwaith y cread wedi ei gwblhau, a Duw fel Brenin yn teyrnasu'n y Nefoedd, a dim ond rhyw gyfryngwyr yn cael mynedfa i'w bresenoldeb. A'r darlun hwn o Dduw nid oedd gan Mr. Wm. Morgan yr un cydymdeimlad. Ni charai bomp brenhinol mewn crefydd nac mewn gwlad. Teimlai fod ei brofiad ei hun yn amau llawer ar y ddysgeidiaeth gyffredin. Yng Nghapel y Graig yr oedd yn fynychydd cyson, ac y mae'r plant yn ffyddlon i ddylanwad eu rhieni. Gyda'r tri mab a'r pedair merch a'u cysylltiadau y mae ein cydymdeimlad dyfnaf. Wedi gwasanaeth yng Nghapel y Graig y dydd Llun dilynol aethpwyd â'i weddillion i'r Crematorium, Pontypridd, lle y taenellwyd ei lwch yn yr Ardd Goffa. Gwasanaethwyd gan y Parchedigion J. D. Jones, Lewis Morgan, Dl. John a W. T. Owen.

Tachwedd 13, ELEANOR DAVIES, annwyl briod Mr. Rees Davies, Pantycelyn, Cwmann, ger Llanbedr yn 74 mlwydd oed. Genedigol o Landyfri ydoedd, ac y mae chwaer iddi a dau frawd yn byw yn y lle hwnnw heddiw. Dro'n ôl bu dan driniaeth llaw-feddyg yn Ysbyty Aberystwyth, ond diflannu'n raddol a wnaeth wedi hynny. Rhyw naw mlynedd yn ôl collodd fab drwy ddamwain pan oedd ef ac ychydig gyfeillion ar ei ffordd yn ôl i Lundain ar ôl bod yn Rehearsal y Gymanfa Ganu yng Ngheredigion. Ergyd blin i'r teulu, yn enwedig i'r fam, ydoedd hynny. Pan gofiwn iddi hi a'i phriod gydfyw am 53 mlynedd hawdd deall y fath loes iddo ef yw ei cholli. Benyw y cartref yn bennaf oedd hi, un gryno, lanwedd, a charedig, a chymdoges a berchid gan bawb. Â'n cydymdeimlad allan at y priod, y ferch, y mab (Parchedig Egbert Davies, Ficer Abergele) ac ŵyr bach, a phawb sy'n wylo ei cholli. Y dydd Iau dilynol hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Brondeifi. Gan fod y gweinidog, y Parchedig T. Oswald Williams, yn wael ei iechyd, gwasanaethwyd gan y Parchedig E. O. Jenkins.

Nodion yr Eglwysi.

GELLIONNEN a'r GRAIG, TREBANOS.—Cynhaliwyd y Cyrddau Blynyddol ar Hydref 10 a'r 11, pryd y pregethwyd gan y Parchedig T. Oswald Williams. Cafwyd pregethau grymus gan Mr. Williams yn ôl ei arfer, y cynulliadau yn dda, a'r casgliadau yn drwm.

CAPEL PENRHIW.—Ni ŵyr neb yn iawn beth fydd tynged y capel bychan hwn a adeiladwyd yn 1777, lle y bu David Lloyd, Brynllefrith ; D. Dafis, Castell Hywel, a Gwilym Marles yn gweinidogaethu am dymor maith. Yn ddiweddar gwnaethpwyd atgyweiriadau arno gan saer o'r ymyl, a chostiodd hynny'n agos i ugain punt. Ymgymerais â'r gorchwyl o gasglu'r swm, a byddaf yn wir ddiolchgar am bob rhodd a ddaw i'm llaw. Hyderaf y daw cyfraniadau i law yn fuan. Os daw mwy nag sydd yn eisiau bydd y gweddill yn mynd i Drysorfa'r Gymdeithas.

Llwynmarles, Llandysul. E. O. Jenkins.

GWASANAETHAU DIOLCH AM Y CYNHAEAF.—Galltyplaca ar Hydref 19, y Parchedig W. Esger James, Rhydybont, Llanybydder. Capel y Cwm ar Hydref 22, y Prifathro J. D. Jones. Capel y Bryn ar Hydref 29, y Parchedig David James, gynt Rhydybont. Rhydygwin a Chiliau Aeron, y Parchedig E. O. Jenkins. Graig, Llandysul ar Hydref 20, y Prifathro J. D. Jones. Gellionnen a'r Graig, Trebanos ar Hydref 24, y Prifathro J. D. Jones a'r Parchedig Lewis Morgan.

CAPEL Y FADFA.—Rhai wythnosau'n ôl penderfynodd aelodau'r vsgol Sul ffurfio cronfa er mwyn cael piano at wasanaeth yr ysgol. Dydd Sul, Tachwedd 28, cafodd y gweinidog yr hyfrydwch o hysbysu'r gynulleidfa fod Miss Ellen Thomas, Green Grove, yn anrhegu'r ysgol Sul ag offeryn, a'i fod eisoes yn y festri. Diolchwyd iddi am yr arwydd pellach hwn o'i serch tuag at yr achos. O gofio'i gwreiddiau nid yw'r serch hwn yn achosi syndod i neb a wyr hanes yr achos yn y lle.

CYMANFA YSGOLION.—Dydd Sul, Medi 5, daeth ysgolion Sul a chynulleidfaoedd Capel y Bryn a Chapel y Fadfa ynghyd i dreulio'r prynhawn a'r hwyr gyda'i gilydd. Rhoddwyd y prynhawn i ysgol Sul Capel y Bryn. Adroddwyd a chyd-adroddwyd adnodau o'r Beibl gan y plant o dan ofal Miss Evans, Blue Bell, y cyfan yn glir a chroyw. Yna holwyd yr ysgol gan y Parchedig E. O. Jenkins oddiar Luc x, a chafwyd amser tra dymunol. Capel y Bryn, dan arweiniad Mr. David Evans, oedd yn gyfrifol am y canu i gyd, ac eithrio'r emyn i agor a'r emyn i ddiweddu, a da gweld na ddarfu'r gân yn ein plith. Adeg te, yr oedd cynulleidfa Capel y Fadfa wedi gofalu am ddigonedd i'r ymwelwyr a phawb. Cafodd aelodau'r ddwy gynulleidfa gyfle i ddod i adnabod ei gilydd yn well, a chredwn mai peth da ydyw hynny. Yn yr hwyr cafwyd gwasanaeth ac anerchiad yn rhoi tipyn o hanes ein heglwysi Undodaidd yn y sir. Hyderwn y bydd i'r ymweliad a fu'n ddymunol dros ben gynhyrchu mesur o adfywiad yn y ddwy gynulleidfa.

BRONDEIFI A CHAERONNEN.—Anodd rhoi cronicl o weithrediadau eglwysi o'r gwely. Yno nid yw dydd o'r mis yn cyfrif ond nid teg peidio croniclo serch hynny. Yng Nghaeronnen eleni cawsom y Parch. Anthony Davies, Gweinidog newydd Capel Erw, i wasanaethu yn ein cyfarfodydd diolchgarwch ac ym Mrondeifi pregethodd y Parch. T. Ellis Jones, gweinidog Eglwys Noddfa, a chafwyd gwasanaethau wrth ein bodd yn y naill a'r llall. Ym Mrondeifi hefyd cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus dan nawdd yr ysgol Sul ac y mae diolch yn ddyledus i'r Arolygydd (Nellie Jones), yr Ysgrifennydd (Lena Hughes) a'r Trysorydd (David Jones), ac eraill am redeg yr Eisteddfod heb help y Gweinidog. Wedi bod o'i bulpud am bum Sul, talodd y Gweinidog ddiolch i'r dwy gynulleidfa am iddynt gario 'mlaen ac am eu mynych holi amdano a'u dymuniadau da ac estynnodd Mr. Terwyn Davies groeso cynnes iddo yn ôl y Sul diwethaf, gan obeithio yr adferir ef yn llwyr heb fod yn hir. Er ysgafnhau y baich iddo dan y Nadolig penderfynodd cynulleidfa Brondeifi gynnal ysgol gân yn lle gwasanaeth yr hwyr. Y mae ambell dro caredig yn iechyd calon i weinidog ac yn ddangoseg o barch cynulleidfa iddo. Diolch.

Oherwydd prinder gofod, rhaid cadw rhai Marwgofion a Nodion hyd y rhifyn nesaf.

J. D. Lewis a'i Feibion, Cyf., Argraffwyr, Llandysul